# *Gwyl Gaeaf*

Stori gan: Rebecca Wilson
Cynhyrchiad gan: Theatr Clwyd
***https://www.tickylowe.com/once-upon-a-christmas/***
Mae'r blwch arbennig hwn yn cynnwys y pethau fydd eu hangen arnoch chi i baratoi ar gyfer a mwynhau gwrando ar stori Nadoligaidd gan Theatr Clwyd a ddyluniwyd gan y Dylunydd Theatr Jacob Hughes.
Mae'r stori y byddwch chi'n ei chlywed yn rhan o brofiad Nadolig Theatr Clwyd eleni ac mae'n 'ecscliwsif' i chi fel y medrwch chi gymryd rhan adref neu lle bynnag rydych chi!

**Cyn dechrau mae ychydig o bethau y bydd angen i chi eu paratoi.**

***Cynnwys***
Pecyn gwneud pypedau bys cysgodion
Cerdyn gyda thempledi i'w torri
Mae caead y blwch yn cynnwys "theatr cysgodion"
Pecyn gwneud Llusern Heddwch
Cerdyn sgleiniog, asetad lliw, cannwyll golau te sy'n cael ei weithredu gan fatri
Blanced wlân, goleuadau bach ar gebl tenau, dail
Bydd arnoch chi angen
Siswrn, tâp selo, staplwr a fflachlamp

**Pethau eraill efallai yr hoffech chi ddod o hyd iddynt er mwyn ymuno yn y stori:** Llwyau disglair, Hoff het!!

making sense CIC

Theatr Clwyd

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

***https://www.tickylowe.com/once-upon-a-christmas/***

***Sut i wneud Llusern Heddwch***

Plygwch y papur sgleiniog yn ei hanner ar hyd yr ochr hiraf a gwneud toriadau yr holl ffordd ar hyd
Defnyddiwch y staplwr neu'r tâp selo i roi'r asetad ar ochr plaen y cerdyn
Crewch siâp sylindraidd a'i ddal at ei gilydd gyda'r staplwr neu'r tâp selo
Rhowch ddolen arni
Defnyddiwch dâp selo ar draws y gwaelod i wneud sail i'r gannwyll a weithredir gan fatri a'i rhoi yn y gwaelod a'i switsio ymlaen pan rydych chi'n barod ar gyfer y stori
Dilynwch y ddolen uchod i wylio ffilm 'sut i' gan Jacob

***Sut i wneud Pypedau Cysgodion***

Torrwch y templedi o'r cerdyn a ddarparwyd
Defnyddiwch dâp selo i wneud modrwy o gerdyn i fynd am eich bys
Y pump pyped ydi'r prif gymeriadau yn y stori – draig, coblyn, cawr, tylwythen deg a gwrach
Mae'r blwch yn cynnwys ei theatr pypedau cysgodion ei hun yn y caead!
Rhowch olau eich llusern neu fflachlamp y tu ôl i'r ffen-estr gron a chreu sioe pypedau cysgodion gyda'r pypedau bys a'r goeden wedi'i thorri fel eich set llwyfan.
Dilynwch y ddolen uchod i wylio ffilm 'sut i' gan Jacob, y dylunydd fu'n gwneud y pypedau a dod â nhw'n fyw yn y theatr pypedau cysgodion.

***Rydych chi bron yn barod i wrando ar y stori***

Defnyddiwch y llusern i greu ymdeimlad o hud a lledrith yn yr ystafell
Efallai y byddwch chi'n dymuno pylu'r goleuadau!
Mae'r stori'n digwydd mewn coedwig ac yn Theatr Clwyd mae'r gynulleidfa'n gwrando ar y stori mewn gwagle hudol gyda chlustogau, rygiau a goleuadau prydferth.
Gwyliwch y ffilm sy'n dangos y man adrodd y stori a ddyluniwyd gan Jacob Hughes i ysbrydoli eich gwagle hudol chi!  Dilynwch y ddolen.
Cofiwch ddod â'ch blanced fel eich bod chi'n gynnes a chlud wrth wrando ar y stori  Cofiwch eich llwyau disglair a'ch hoff het hefyd
Dilynwch y ddolen uchod i glywed y stori, sy'n 15 munud o hyd

Gobeithiwn y gwnewch chi ei mwynhau hi!

making sense CIC

Theatr Clwyd

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED